



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2023 Rhif 256 (Cy. 35)

2023 No. 256 (W. 35)

YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU

EXITING THE EUROPEAN
UNION, WALES

CYNLLUNIO GWLAD A
THREF, CYMRU

TOWN AND COUNTRY
PLANNING, WALES

Gorchymyn Datblygu Arbennig
Cynllunio Gwlad a Thref (Safle
Rheoli ar y Ffin Gogledd Cymru)
(Ymadael â'r UE) 2023

The Town and Country Planning
(North Wales Border Control Post)
(EU Exit) Special Development
Order 2023

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Creodd ymadawriad y DU â'r UE angen i sefydlu trefniadau newydd o ran rheoli ar y ffin a gwiriadau newydd ar fewnforion. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer safle rheoli ar y ffin a pharcio ar gyfer hyd at 60 o gerbydau nwyddau trwm ym Mhlot 9, Parc Cybi, Caergybi.

Mae erthygl 3 yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys defnyddio tir i brosesu a lleoli cerbydau sy'n dod i mewn i Brydain Fawr neu'n ymadael â hi ym Mhorthladd Caergybi, a darparu cyfleusterau a seilwaith cysylltiedig.

Mae erthygl 4 yn gwahardd unrhyw ddatblygu o fewn brigiad creigiog.

Mae erthygl 5 a'r Atodlen yn pennu'r amodau ar gyfer datblygu'r safle. Rhaid i'r materion yn Rhan 2 o'r Atodlen fod yn weithredol cyn dechrau defnyddio'r safle.

Mae erthygl 6 yn darparu'r broses ar gyfer cael cymeradwyaeth berthnasol gan yr awdurdod cynllunio lleol. Mae cymeradwyaeth berthnasol yn ofynnol gan yr amodau yn Rhan 2 ar gyfer strategaeth arwyddion, ar gyfer cynllun cynnal a chadw tirwedd, mewn

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

The withdrawal of the UK from the EU created a need to establish new border control arrangements and checks on imports. This Order grants planning permission for a border control post and parking for up to 60 heavy goods vehicles at Plot 9, Parc Cybi, Holyhead.

Article 3 grants planning permission for development consisting of the use of land for the processing and stationing of vehicles entering or leaving Great Britain at the Port of Holyhead, and the provision of associated facilities and infrastructure.

Article 4 prohibits any development within a rocky outcrop.

Article 5 and the Schedule specify the conditions for the development of the site. The matters in Part 2 of the Schedule must be operational before the site is brought into use.

Article 6 provides the process for obtaining a relevant approval from the local planning authority. A relevant approval is required by the conditions in Part 2 for a signage strategy, for a landscape maintenance plan, in relation to noise mitigation measures and to

perthynas â'r mesurau gostegu sŵn ac er mwyn defnyddio gorffeniadau lliw gwahanol i'r rheini a bennir. Mae cymeradwyaeth berthnasol yn ofynnol gan yr amodau yn Rhan 3 ar gyfer cynllun teithio diwygiedig ac ar gyfer unrhyw astudiaeth sŵn sy'n ofynnol ar gyfer gweithgaredd newydd penodedig ar y safle.

Yn fras, mae'r amodau yn cwmpasu oriau gwaith adeiladu, sŵn a dirgryniad (gan gynnwys terfynau a mesurau gostegu), goleuo, diogelu rhag rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid estron goresgynnol, uchder adeiladau ac arwynebau caled, y brigiad creigiog, ffensys, yr effeithiau gweledol, mynediad, tirlunio, rheoli gwastraff a draenio, rheoli traffig a theithio.

Dangosir y tir y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo ar fap ac mae copi o'r map hwnnw ar gael i edrych arno yn swyddfeydd y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, ar www.llyw.cymru ac yn Cyngor Sir Ynys Môn, yr Adran Cynllunio a Rheoli Adeiladu, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

use different colour finishes to those specified. A relevant approval is required by the conditions in Part 3 for a revised travel plan and for any noise study which is required for specified new activity on the site.

Broadly, the conditions cover construction hours, noise and vibration (including limits and mitigation measures), lighting, protection against invasive non-native species of plants and animals, building height and hard surfacing, the rocky outcrop, fencing, visual impacts, access, landscaping, waste management and drainage, traffic management and travel.

The land to which this Order applies is shown on a map, a copy of which is available for inspection at the Planning Directorate, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ, at www.gov.wales and at Isle of Anglesey County Council, Planning and Building Control Department, Council Offices, Llangefni, Anglesey, LL77 7TW.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with this Order. A copy can be obtained from the Planning Directorate, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2023 Rhif 256 (Cy. 35)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**CYNLLUNIO GWLAD A
THREF, CYMRU**

Gorchymyn Datblygu Arbennig
Cynllunio Gwlad a Thref (Safle
Rheoli ar y Ffin Gogledd Cymru)
(Ymadael â'r UE) 2023

Gwnaed 2 Mawrth 2023
*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru* 6 Mawrth 2023
Yn dod i rym 28 Mawrth 2023

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 59(1), (2)(a) a (3)(b) a 60(1) a (2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(2), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi, dod i rym a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Datblygu Arbennig Cynllunio Gwlad a Thref (Safle Rheoli ar y Ffin Gogledd Cymru) (Ymadael â'r UE) 2023 a daw i rym ar 28 Mawrth 2023.

-
- (1) 1990 p. 8. Mewnosodwyd adran 59(4) gan adran 55 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4) a pharagraff 5 o Atodlen 7 iddi. Mae diwygiadau eraill i adrannau 59 a 60 nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.
- (2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 59 a 60(1), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo: gweler y cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel y'i hamnewidiwyd gan erthygl 4 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253) ac Atodlen 3 iddo. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi, trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru.

2023 No. 256 (W. 35)

**EXITING THE EUROPEAN
UNION, WALES**

**TOWN AND COUNTRY
PLANNING, WALES**

The Town and Country Planning
(North Wales Border Control Post)
(EU Exit) Special Development
Order 2023

Made 2 March 2023
Laid before Senedd Cymru 6 March 2023
Coming into force 28 March 2023

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 59(1), (2)(a) and (3)(b) and 60(1) and (2) of the Town and Country Planning Act 1990(1) and now exercisable by them(2), make the following Order.

Title, coming into force and application

1.—(1) The title of this Order is the Town and Country Planning (North Wales Border Control Post) (EU Exit) Special Development Order 2023 and it comes into force on 28 March 2023.

-
- (1) 1990 c. 8. Section 59(4) was inserted by section 55 of, and paragraph 5 of Schedule 7 to, the Planning (Wales) Act 2015 (anaw 4). There are other amendments to sections 59 and 60 that are not relevant to this instrument.
- (2) The functions of the Secretary of State under sections 59 and 60(1) were, so far as exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales by article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672): see the entry in Schedule 1 for the Town and Country Planning Act 1990 as substituted by article 4 of, and Schedule 3 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2000 (S.I. 2000/253). By virtue of section 162 of, and paragraphs 30 and 32 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32) the functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i "y tir" fel y'i diffinnir yn erthygl 2.

Dehongli

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

mae "adeilad" ("*building*") yn cynnwys unrhyw strwythur neu adeiladwaith, ac unrhyw ran o adeilad fel y'i diffinnir yn y modd hwnnw, ond nid yw'n cynnwys cyfarpar neu beiriannau a gynhwysir mewn adeilad;

ystyr "adran y ffin" ("*border department*") yw unrhyw un neu ragor o blith—

- (a) Gweinidogion Cymru;
- (b) yr awdurdod iechyd porthladd ar gyfer Porthladd Caerdybi;
- (c) Comisiynwyr Cyllid a Thollau ei Fawrhydi;
- (d) yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol;
- (e) yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig;
- (f) yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafndiaeth;

ystyr "ardal dirlunio newydd" ("*new landscaping area*") yw'r ardal sydd wedi ei marcio ar y map fel "Clustogfa Sgrinio'r Tirlun Dangosol" ac sydd wedi ei harlliwio'n wyrdd gyda chroeslinellau;

ystyr "yr ardal ddatblygadwy" ("*the developable area*") yw'r ardal a ddangosir ar y map fel "Ardal ddatblygadwy" ac y dangosir ei ffin allanol gan myl allanol y ffin doredig ddu;

mae "arwyneb caled" ("*hard surfacing*") yn cynnwys unrhyw arwyneb artiffisial, a chaiff fod yn hydraidd neu'n anhydraidd fel y pennir;

mae i "awdurdod cynllunio lleol" ("*local planning authority*") yr ystyr a roddir i "local planning authority" yn Rhan 1 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1);

mae i "awdurdod lleol" ("*local authority*") yr ystyr a roddir i "local authority" yn adran 336 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(2);

(1) Mewnosodwyd adran 1(1B) gan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19). Mewnosodwyd adran 4A gan adran 67(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25).

(2) Diwygiwyd adran 336 gan adran 78 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25) a pharagraff 32(13) o Atodlen 10 iddi, adran 117(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14) a pharagraff 9 o Atodlen 13 iddi ac adran 53(1) o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21) a pharagraff 72 o Atodlen 1 iddi. Mae diwygiadau eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(2) This Order applies to "the land" as defined in article 2.

Interpretation

2.—(1) In this Order—

"border department" ("*adran y ffin*") means any of—

- (a) the Welsh Ministers;
- (b) the port health authority for the Port of Holyhead;
- (c) the Commissioners for His Majesty's Revenue and Customs;
- (d) the Secretary of State for Business, Energy and Industrial Strategy;
- (e) the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs;
- (f) the Secretary of State for Transport.

"building" ("*adeilad*") includes any structure or erection, and any part of a building as so defined, but does not include plant or machinery comprised in a building;

"the developable area" ("*yr ardal ddatblygadwy*") means the area shown on the map as "Developable area" and bounded externally by the outer edge of the black dashed border;

"developer" ("*datblygwr*") means the local authority or a border department or a person carrying out the development on behalf of a local authority or border department at the relevant time;

"development" ("*datblygu*") has the same meaning as in section 55(1) of the Town and Country Planning Act 1990, carried out pursuant to the planning permission granted by article 3;

"emergency access road" ("*ffordd fynediad argyfwng*") means any road from the emergency access point on the highway marked by the blue arrows on the map, to the nearest hardstanding;

"existing landscaping" ("*tirlunio presennol*") means the existing trees and vegetation running from the south west of the boundary edge of the land to the south east of the boundary edge of the land including behind the existing pond and identified on the map—

- (a) as "Existing Landscaping to be retained", and
- (b) shaded orange with a repeating right angle pattern;

"goods" ("*nwyddau*") includes plants and animals;

ystyr “brigiad creigiog” (“*rocky outcrop*”) yw’r ardal a ddangosir ar y map fel “Brigiad Creigiog” ac sydd wedi ei harlliwio’n wyrdd tywyll gyda phatrwm triongl sy’n ailadrodd;

mae i “datblygu” (“*development*”) yr un ystyr â “development” yn adran 55(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a wneir yn unol â’r caniatâd cynllunio a roddir gan erthygl 3;

ystyr “datblygwr” (“*developer*”) yw’r awdurdod lleol neu adran y ffin neu berson sy’n gwneud y datblygiad ar ran awdurdod lleol neu adran y ffin ar yr adeg berthnasol;

ystyr “derbynyddion preswyl” (“*residential receptors*”) yw’r anheddau preswyl yn y cyfeiriadau stryd a ganlyn yng Nghaerdybi—

- (a) Kingsland Road;
- (b) Penrhyn Geiriol;
- (c) Lôn Trefnath;

ystyr “ffordd fynediad argyfwng” (“*emergency access road*”) yw unrhyw ffordd o’r fynedfa argyfwng ar y briffordd sydd wedi ei marcio â’r saethau glas ar y map, hyd at y llawr caled agosaf;

mae i “gwastraff peryglus” (“*hazardous waste*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 6 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005(1);

ystyr “y map” (“*the map*”) yw’r map sydd wedi ei farcio “Map y cyfeirir ato yng Ngorchymyn Datblygu Arbennig Cynllunio Gwlad a Thref (Safle Rheoli ar y Ffin Gogledd Cymru) (Ymadael â’r UE) 2023, rhif y dyluniad: BCP22-006-05-01 diwygiad P01.11” y mae copi ohono, wedi ei lofnodi gan aelod o’r Uwch Wasanaeth Sifil yng Nghyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru, ar gael i edrych arno yn—

- (a) Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ,
- (b) www.llyw.cymru(2), ac
- (c) Cyngor Sir Ynys Môn, yr Adran Cynllunio a Rheoli Adeiladu, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW;

ystyr “mynedfa’r safle” (“*site entrance*”) yw’r lleoliad a ddangosir ar y map fel “Mynedfa i’r safle a ganiateir” a chan y ddwy saeth goch;

mae “nwyddau” (“*goods*”) yn cynnwys planhigion ac anifeiliaid;

ystyr “Parth A” (“*Zone A*”) yw’r ardal a ddangosir ar y map fel “Parth A – 23m” ac sydd wedi ei harlliwio’n borffor gyda phatrwm tonnog sy’n ailadrodd;

“hard surfacing” (“*arwyneb caled*”) includes any artificial surfacing and may be permeable or impermeable as specified;

“hazardous waste” (“*gwastraff peryglus*”) has the meaning given in regulation 6 of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005(1);

“the land” (“*y tir*”) means the land comprising Plot 9, Parc Cybi, Holyhead, LL65 2YQ shown bounded externally by the outer edge of a bold red line on the map;

“landscaping” (“*tirlunio*”) means—

- (a) the planting and maintenance of trees, hedges, shrubs or grass;
- (b) the formation of banks or other changes to ground levels;

“local authority” (“*awdurdod lleol*”) has the meaning given in section 336 of the Town and Country Planning Act 1990(2);

“local planning authority” (“*awdurdod cynllunio lleol*”) has the meaning given in Part 1 of the Town and Country Planning Act 1990(3);

“the map” (“*y map*”) means the map marked “Map referred to in the Town and Country Planning (North Wales Border Control Post) (EU Exit) Special Development Order 2023, drawing number: BCP22-006-05-01 revision P01.11” a copy of which, signed by a member of the Senior Civil Service in the Welsh Government Planning Directorate, is available for inspection at—

- (a) The Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ,
- (b) www.gov.wales(4), and
- (c) Isle of Anglesey County Council, Planning and Building Control Department, Council Offices, Llangefni, Anglesey, LL77 7TW;

“new landscaping area” (“*ardal dirlunio newydd*”) means the area marked on the map as “Indicative Landscape Buffer Screening” and shaded in green with cross-hatching;

(1) O.S. 2005/1806 (Cy. 138), a ddiwygiwyd gan O.S. 2015/1417 (Cy. 141) ac O.S. 2020/1339 (Cy. 296).

(2) <https://www.llyw.cymru/gorchymyn-datblygu-arbenning-safle-rheoli-ffiniau-caerdybi>

(1) S.I. 2005/1806 (W. 138), amended by S.I. 2015/1417 (W. 141) and S.I. 2020/1339 (W. 296).

(2) Section 336 was amended by section 78 of, and paragraph 32(13) of Schedule 10 to, the Environment Act 1995 (c. 25), section 117(1) of, and paragraph 9 of Schedule 13 to, the Local Government Finance Act 1992 (c. 14) and section 53(1) of, and paragraph 72 of Schedule 1 to, the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21). There are other amendments but none are relevant.

(3) Section 1(1B) was inserted by section 18 of the Local Government (Wales) Act 1994 (c. 19). Section 4A was inserted by section 67(1) of the Environment Act 1995 (c. 25).

(4) <https://www.gov.wales/special-development-order-holyhead-border-control-post>.

ystyr “Parth B” (“*Zone B*”) yw’r ardal a ddangosir ar y map fel “Parth B – 33m” ac sydd wedi ei harlliwio’n wyrdd golau gyda phatrwm llinell letraws sy’n ailadrodd;

ystyr “y tir” (“*the land*”) yw’r tir sy’n cynnwys Plot 9, Parc Cybi, Caergybi, LL65 2YQ y dangosir ei ffin allanol gan ymyl allanol llinell goch fras ar y map;

ystyr “tirlunio” (“*landscaping*”) yw—

- (a) plannu coed, gwrychoedd, llwyni neu laswellt a’u cynnal a’u cadw;
- (b) ffurfio argloddiau neu newidiadau eraill i lefelau’r ddaear;

ystyr “tirlunio presennol” (“*existing landscaping*”) yw’r coed a’r llystyfiant presennol o ymyl ffin dde-orllewinol y tir i ymyl ffin dde-ddwyreiniol y tir gan gynnwys y tu ôl i’r pwll presennol ac a nodwyd ar y map—

- (a) fel “Tirlunio presennol i’w gadw”, a
- (b) wedi ei arlliwio’n oren gyda phatrwm ongl sgwâr sy’n ailadrodd.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at uchder adeilad yn gyfeiriad at ei uchder wrth fesur o ddatwm ordnans.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at fesuriad o ffin yn gyfeiriad at fesuriad unionlin sy’n unionsyth i unrhyw bwynt ar y ffin o dan sylw.

(4) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at derfynau sŵn nad ydynt yn uwch na desibelau (dB) penodedig yn gyfeiriad at gyfartaledd lefel pwysedd sain dros amser sydd wedi’i phwysoli yn unol ag “A” am gyfnod o un awr (LAeq, 1awr).

Rhoi caniatâd cynllunio

3.—(1) Yn ddarostyngedig i erthyglau 4 a 5, rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer—

- (a) newid defnydd y tir yn sylweddol at ddiben, neu mewn cysylltiad ag—
 - (i) unrhyw weithgaredd sy’n ffurfio rhan o swyddogaethau, neu sy’n gysylltiedig â swyddogaethau, y mae’n ofynnol eu cyflawni gan neu ar ran adran ffin mewn cysylltiad â cherbydau a nwyddau sy’n dod i mewn i Brydain Fawr neu’n ymadael â hi, neu sydd ar fin dod i mewn i Brydain Fawr neu sydd ar fin ymadael â hi, drwy Borthladd Caergybi, gan gynnwys—
 - (aa) cofnodi cerbydau sy’n mynd i’r ardal ddatblygadwy neu’n ymadael â’r ardal ddatblygadwy;

“residential receptors” (“*derbynyddion preswyl*”) means the residential dwellings at the following street addresses in Holyhead—

- (a) Kingsland Road;
- (b) Penrhyn Geiriol;
- (c) Lôn Trefnath;

“rocky outcrop” (“*brigiad creigiog*”) means the area shown on the map as “Rocky Outcrop” and shaded dark green with a repeating triangle pattern;

“site entrance” (“*mynedfa’r safle*”) means the location shown on the map as “Permissible site entrance” and by the two red arrows;

“Zone A” (“*Parth A*”) means the area shown on the map as “Zone A – 23m” and shaded purple with a repeating wave pattern;

“Zone B” (“*Parth B*”) means the area shown on the map as “Zone B – 33m” and shaded light green with a repeating diagonal line pattern.

(2) Any reference in this Order to the height of a building is a reference to its height when measured from ordnance datum.

(3) Any reference in this Order to a measurement from a boundary is a reference to a linear measurement that is perpendicular to any point on the boundary in question.

(4) Any reference in this Order to noise limits not exceeding specified decibels (dB) is a reference to the time averaged A-weighted sound pressure level for a one-hour time interval (LAeq, 1hr).

Grant of planning permission

3.—(1) Subject to articles 4 and 5, planning permission is granted for—

- (a) the making of a material change of use of the land for the purpose of, or in connection with—
 - (i) any activity that forms part of, or is incidental to, functions required to be carried out by or on behalf of a border department in connection with vehicles and goods entering or exiting, or that are about to enter or exit, Great Britain via the Port of Holyhead including—
 - (aa) recording vehicles entering or exiting the developable area;

- (bb) darparu, adnewyddu, gwirio, ardystio a chymeradwyo datganiadau tollau, trwyddedau a dogfennau eraill sy'n ymwneud â cherbydau a nwyddau;
 - (cc) archwilio nwyddau, ymafael ynddynt a'u cadw;
 - (dd) arolygu cerbydau a nwyddau at unrhyw ddiben cyfreithlon arall;
 - (ee) storio neu ddal nwyddau sy'n cael eu cludo mewn cerbydau;
 - (ff) gwirio cerbydau,
 - (ii) lleoli cerbydau yn gysylltiedig â hynny, ac unrhyw faterion sy'n ategol i hynny, gan gynnwys atgyweiriadau brys i gerbydau, a
 - (iii) manau parcio a weithredir gan neu ar ran Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod lleol, ar gyfer hyd at 60 cerbyd nwyddau trwm;
- (b) yn yr ardal ddatblygadwy, adeiladu, gosod, darparu, gweithredu, cynnal a chadw, gwella neu addasu, datgomisiynu neu symud ymaith unrhyw adeiladau ac arwynebau caled, a chyflawni unrhyw waith a newidiadau i lefelau'r ddaear, sy'n ofynnol neu a ddarperir mewn cysylltiad â defnyddio'r tir yn unol ag is-baragraff (a), gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddarparu—
- (i) cyfleusterau ar gyfer gyrrwyr cerbydau;
 - (ii) cyfleusterau ar gyfer personau sy'n ymwneud ag unrhyw weithgaredd a ganiateir gan is-baragraff (a);
 - (iii) cyfleusterau diogelwch a derbyn;
 - (iv) ffyrdd a dulliau mynediad eraill;
 - (v) unrhyw brif bibell, pibell, cebl neu gyfarpar arall ar gyfer darparu dŵr, nwy, trydan neu wasanaethau eraill;
 - (vi) unrhyw systemau draenio dŵr brwnt a dŵr wyneb gan gynnwys cwlfertau, ffosydd, pantiau a phyllau;
 - (vii) arwynebau caled;
 - (viii) goleuadau;
 - (ix) ffensys;
 - (x) arwyddion;
 - (xi) tirlunio;
 - (xii) mesurau gostegu sŵn;
 - (xiii) manau gwefru ac offer cynhyrchu ynni adnewyddadwy;
- (bb) providing, renewing, checking, endorsing and approving customs declarations, permits and other documents relating to vehicles and goods;
 - (cc) examining, seizing and detaining goods;
 - (dd) inspecting vehicles and goods for any other lawful purpose;
 - (ee) storing or holding goods carried in vehicles;
 - (ff) checking vehicles,
 - (ii) the associated stationing of vehicles and any matter ancillary to it, including emergency repairs to vehicles, and
 - (iii) parking operated by or on behalf of the Welsh Ministers or the local authority, for up to 60 heavy goods vehicles;
- (b) in the developable area, the construction, installation, provision, operation, maintenance, improvement or alteration, decommissioning or removal of any buildings and hard surfacing, and the carrying out of any works and changes to ground levels, required or provided in connection with the use of the land pursuant to sub-paragraph (a), including but not limited to the provision of—
- (i) facilities for drivers of vehicles;
 - (ii) facilities for persons engaged in any activity permitted by sub-paragraph (a);
 - (iii) security and reception facilities;
 - (iv) roads and other means of access;
 - (v) any main, pipe, cable or other apparatus for the provision of water, gas, electricity or other services;
 - (vi) any foul water and surface water drainage systems including culverts, ditches, swales and ponds;
 - (vii) hard surfacing;
 - (viii) lighting;
 - (ix) fencing;
 - (x) signs;
 - (xi) landscaping;
 - (xii) noise mitigation measures;
 - (xiii) charging points and renewable energy generating equipment;

(xiv) mannau parcio a weithredir gan neu ar ran Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod lleol, ar gyfer hyd at 60 cerbyd nwyddau trwm;

(c) yn yr ardal rhwng ffin yr ardal ddatblygadwy a ffin y tir—

(i) tirlunio;

(ii) ffensys, ac eithrio ffensys gostegu sŵn;

(iii) rheoli gwastraff a draenio;

sy'n ategol i'r gweithgareddau yn is-baragraffau (a) a (b).

(2) Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995(1) yn gymwys i'r tir—

(a) ac eithrio'r brigiad creigiog, ond

(b) os oes gwrthdaro rhwng y Gorchymyn hwn ac unrhyw ddatblygu a ganiateir gan y Gorchymyn hwnnw, mae darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn gymwys.

Cyfyngiad

4. Ni chaniateir datblygu o fewn y brigiad creigiog.

Amodau

5.—(1) Mae datblygiad a awdurdodir gan erthygl 3 yn ddarostyngedig i'r amodau yn yr Atodlen.

(2) Rhaid cydymffurfio â'r amodau yn Rhan 2 o'r Atodlen cyn i unrhyw ddefnydd a ganiateir gan erthygl 3(1)(a)(i) gychwyn.

Cymeradwyaeth berthnasol

6.—(1) Pan fo amod yn darparu ar gyfer "cymeradwyaeth berthnasol" mae hyn yn golygu cymeradwyaeth a roddir gan yr awdurdod cynllunio lleol mewn ysgrifen.

(2) Pan fo'r awdurdod cynllunio lleol yn cael cais am gymeradwyaeth berthnasol a'i fod yn ystyried nad yw gwybodaeth ddigonol wedi ei darparu iddo i benderfynu pa un ai i roi'r gymeradwyaeth berthnasol, rhaid iddo roi gwybod i'r ceisydd am yr wybodaeth bellach neu'r dogfennau pellach sy'n ofynnol ganddo.

(3) Caiff yr awdurdod cynllunio lleol roi'r gymeradwyaeth berthnasol yn ddiamod neu'n ddarostyngedig i amodau a rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol ag unrhyw amodau a bennir.

(xiv) parking operated by or on behalf of the Welsh Ministers or the local authority, for up to 60 heavy goods vehicles;

(c) in the area between the boundary of the developable area and the boundary of the land—

(i) landscaping;

(ii) fencing, except noise attenuation fencing;

(iii) waste management and drainage;

which is ancillary to the activities in subparagraphs (a) and (b).

(2) The Town and Country Planning (General Permitted Development) Order 1995(1) applies to the land—

(a) except the rocky outcrop, but

(b) if there is a conflict between this Order and any development permitted by that Order, the provisions of this Order apply.

Limitation

4. Development is not permitted within the rocky outcrop.

Conditions

5.—(1) Development authorised by article 3 is subject to the conditions in the Schedule.

(2) The conditions in Part 2 of the Schedule must be complied with before any use permitted by article 3(1)(a)(i) begins.

Relevant approval

6.—(1) Where a condition provides for a "relevant approval" this means an approval given by the local planning authority in writing.

(2) Where the local planning authority is in receipt of a request for a relevant approval and it considers it has not been provided with sufficient information to determine whether to give the relevant approval, it must notify the applicant of the further information or documents that it requires.

(3) The local planning authority may grant the relevant approval unconditionally or subject to conditions and the development must be carried out in accordance with any conditions specified.

(1) O.S. 1995/418.

(1) S.I. 1995/418.

Julie James

Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion
Cymru
2 Mawrth 2023

The Minister for Climate Change, one of the Welsh
Ministers
2 March 2023

RHAN 1

PART 1

Amodau ar weithrediadau adeiladu

Conditions of building operations

Amgáu'r brigiad creigiog

1.—(1) Rhaid amgáu'r brigiad creigiog gyda ffensys o amgylch ei derfyn allanol.

(2) Ni chaniateir unrhyw ddatblygu hyd nes y cydymffurfir â'r amod yn is-baragraff (1), ac eithrio darparu goleuadau, ffensys neu arwyddion.

Oriau adeiladu

2.—(1) Ni chaniateir gwneud y gwaith adeiladu a restrir yn is-baragraff (2) ond rhwng yr oriau a ganlyn—

- (a) 0700 a 1900 yn ystod yr wythnos, a
- (b) 0700 a 1300 ar ddydd Sadwrn.

(2) Unrhyw—

- (a) symud daear;
- (b) drilio, torri neu ffrwydro;
- (c) gosod arwyneb caled;
- (d) defnyddio cerbydau neu gyfarpar gyda larymau bacio.

Terfynau sŵn a therfynau dirgryniad

3.—(1) Ni chaiff lefelau sŵn yn ystod gwaith adeiladu fod yn uwch na 65dB (LAeq, 1awr).

(2) Ni chaiff lefel dirgryniad y ddaear fod yn uwch nag—

- (a) cyflymder uchaf gronynnau o 10 milimetr yr eiliad;
- (b) cyflymder uchaf gronynnau o 1 milimetr yr eiliad ar 10 neu ragor o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 15 niwrnod yn olynol.

(3) Rhaid mesur terfynau sŵn a dirgryniad o 1 fetr i ffwrdd o unrhyw wedd derbynnydd preswyl.

Rheoli traffig adeiladu

4.—(1) Rhaid cydymffurfio â'r amod hwn yn ystod unrhyw ddatblygu a ganiateir gan erthygl 3(1)(b) neu (c).

Enclosure of rocky outcrop

1.—(1) The rocky outcrop must be enclosed by fencing around its perimeter.

(2) No development is permitted until the condition in sub-paragraph (1) is complied with, except for the provision of lighting, fencing or signage.

Construction hours

2.—(1) The construction works listed in sub-paragraph (2) are only permitted between the hours of—

- (a) 0700 and 1900 on weekdays, and
- (b) 0700 and 1300 on Saturdays.

(2) Any—

- (a) earth moving;
- (b) drilling, breaking or blasting;
- (c) installation of hard surfacing;
- (d) use of vehicles or plant with reversing alarms.

Noise limits and vibration limits

3.—(1) Noise levels during construction works must not exceed 65dB (LAeq, 1hr).

(2) Ground vibration must not exceed—

- (a) 10 millimetres per second peak particle velocity;
- (b) 1 millimetre per second peak particle velocity on 10 or more days in any period of 15 consecutive days.

(3) Noise and vibration limits must be measured at 1 metre from any elevation of a residential receptor.

Construction traffic management

4.—(1) This condition must be complied with during any development permitted by article 3(1)(b) or (c).

- (2) Rhaid codi arwyddion dros dro er mwyn—
- (a) cyfeirio cerbydau adeiladu i ddynesu at y tir ac ymadael â'r tir gan ddefnyddio ffordd feingefn Parc Cybi o'r gyffordd sy'n cysylltu â chefnffordd yr A55, a
 - (b) annog cerbydau rhag defnyddio ffordd Lôn Trefignath o'i chyffordd â'r tir hyd at ei chyffordd â Lon Towyn Capel.

(3) Rhaid darparu manau parcio o fewn yr ardal ddatblygadwy sy'n ddigonol i atal parcio gorlif ar ffordd feingefn Parc Cybi.

(4) Rhaid darparu lle ar gyfer llwytho a dadlwytho o fewn yr ardal ddatblygadwy sy'n ddigonol i atal y gweithgaredd hwn rhag digwydd ar ffordd feingefn Parc Cybi.

(5) Rhaid i gyfleusterau golchi olwynion fod ar gael a rhaid iddynt gael eu gweithredu i atal mwd a malurion rhag cael eu dyddodi ar y briffordd, a phan fo dyddodion yn digwydd, rhaid i'r datblygwr sicrhau bod y briffordd yn cael ei sgubo.

Goleuadau adeiladu

5.—(1) Rhaid cydymffurfio â'r amod hwn yn ystod unrhyw ddatblygu a ganiateir gan erthygl 3(1)(b) neu (c).

(2) Ni chaniateir defnyddio goleuadau artiffisial ond pan fo hynny'n angenrheidiol.

(3) Rhaid cyfeirio unedau goleuadau i ffwrdd o bob derbynnydd preswyl.

Diogelu rhag rhywogaethau estron goresgynnol

6. Rhaid i fesurau effeithiol fod ar waith i ddiogelu rhag dod â rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid estron goresgynnol ar y tir ar gerbyd neu ar droed.

Uchder adeiladau ac arwynebau caled

7. Ni chaiff uchder adeiladau ar gyfer y parthau a nodir yng ngholofn (1) o Dabl 1 fod yn uwch na'r uchder a nodir yng ngholofn (2).

Tabl 1

<i>(1) Parth</i>	<i>(2) Uchder uchaf adeilad</i>
Parth A	23 o fetrau
Parth B	33 o fetrau

8.—(1) Rhaid i'r elfennau a ganlyn fod wedi eu gwneud o laswellt cyfnerthedig hydraid—

- (a) y ffordd fynediad argyfwng;
- (b) cilfan yr is-orsaf.

(2) Temporary signage must be erected to—

- (a) direct construction vehicles to approach and leave the land using the Parc Cybi spine road from the junction which links to the A55 trunk road, and
- (b) deter vehicles from using the road Lôn Trefignath from its junction with the land to its junction with Lon Towyn Capel.

(3) Parking must be provided within the developable area sufficient to prevent parking overspill on the Parc Cybi spine road.

(4) Space for loading and unloading must be provided within the developable area sufficient to prevent this activity taking place on the Parc Cybi spine road.

(5) Wheel washing facilities must be available and operated to prevent mud and debris being deposited on the highway and where deposits do occur, the developer must ensure the highway is swept.

Construction lighting

5.—(1) This condition must be complied with during any development permitted by article 3(1)(b) or (c).

(2) Artificial lighting must only be used when it is necessary.

(3) Lighting units must be directed away from all residential receptors.

Protecting against invasive non-native species

6. Effective measures to protect against bringing invasive non-native species of plants and animals on to the land by vehicle or on foot must be in place.

Building height and hard surfacing

7. Building heights for the zones identified in column (1) of Table 1 must not exceed the height detailed in column (2).

Table 1

<i>(1) Zone</i>	<i>(2) Maximum building height</i>
Zone A	23 metres
Zone B	33 metres

8.—(1) The following elements must be made of permeable reinforced grass—

- (a) emergency access road;
- (b) sub-station layby.

(2) Os cânt eu hadeiladu rhaid i'r elfennau a ganlyn fod wedi eu gwneud o ddeunydd hydraidd—

- (a) llwybrau troed;
- (b) meysydd parcio.

(3) Os cânt eu hadeiladu rhaid i'r elfennau a ganlyn fod wedi eu gwneud o ddeunydd anhydraidd ac wedi eu hadeiladu i atal llygryddion rhag mynd i'r ddaear—

- (a) pob ffordd heblaw'r ffordd fynediad argyfwng;
- (b) y llain ddanfoniadau;
- (c) yr ardal arolygu cerbydau;
- (d) yr ardal cwarantyn cerbydau.

Yr effaith weledol

9.—(1) Rhaid i doeon adeiladau fod wedi eu gorffen yn un o'r lliwiau a ganlyn—

- (a) S 3005-Y20R;
- (b) S 3005-R80B;
- (c) S 7010-Y90R;
- (d) S 3502-R;
- (e) S 3005-G50Y.

(2) Rhaid i ffasadau adeiladau, ffensys diogelwch a ffensys rhwystro acwstig fod wedi eu gorffen mewn pren naturiol neu yn un o'r lliwiau a ganlyn—

- (a) S 2040-G40Y;
- (b) S 2005-B20G;
- (c) 3005-Y20R.

(3) Rhaid i elfennau allanol eraill fod wedi eu gorffen yn un o'r lliwiau a ganlyn—

- (a) S 2040-G40Y;
- (b) S 2005-B20G;
- (c) S 3005-Y20R;
- (d) S 1515-Y90R;
- (e) S 0575-G90Y.

(4) Yn y paragraff hwn, mae "lliwiau" yn cyfeirio at y lliw sy'n cyfateb i'r cod a restrir ar y Natural Colour System®.

(5) Yn is-baragraff (3), mae "elfennau allanol eraill" yn cynnwys—

- (a) fframiau ffenestri;
- (b) trimiau;
- (c) nodweddion pensaernïol;
- (d) strwythurau atodol;
- (e) canllawiau;
- (f) colofnau goleuo;
- (g) celfi allanol megis meinciau.

(2) If constructed the following elements must be made of permeable material—

- (a) footpaths;
- (b) car parks.

